Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl David

Heddiw, rwy'n lansio'r Strategaeth Ryngwladol Cymru newydd. Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi fy helpu fi i ddatblygu a siapio'r dull newydd hwn ac i benderfynu sut rydym yn cyflwyno Cymru i'r byd, cynyddu ein gweleded yn rhyngwladol ac annog buddsoddiad a masnach ynghyd â dangos sut yr ydym yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. .

Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn dibynnu ar lawer iawn o gydweithredu a chydlynu, a hoffwn eich annog chi a sefydliadau yn eich etholaethau a'ch rhanbarthau i weld sut y gallant gyfrannu at y strategaeth. Gallai hyn gynnwys sefydliadau celfyddydol neu chwaraeon sy'n teithio dramor a hoffai chwifio baner Cymru ar ein rhan, i gefnogi aelodau o gymunedau gwasgariad rhyngwladol sy'n byw ac yn cyfrannu yng Nghymru.

Byddai gennym ddiddordeb mawr i weld a allwn gefnogi busnesau lleol yn eich ardal a allai fod yn edrych i allforio yn rhyngwladol, neu i glywed gan gysylltiadau a chysylltiadau rhyngwladol Cymru a allai ein helpu i ledaenu ein negeseuon ledled y byd.

Cysylltwch â strategaethryngwladol@llyw.cymru os gallwch chi ein helpu neu ein cefnogi gyda'r fenter hon.

Dymuniadau gorau

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.